

DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL FERSIWN GRYNO



- 1 Ganwyd ni oll yn rhydd. Mae gennym ni oll ein meddyliau a'n syniadau ein hunain. Dylem oll dderbyn yr un fath o driniaeth.
- 2 Mae'r hawliau hyn yn eiddo i bawb, y tlawd a'r cyfoethog, ym mha wlad bynnag y byddwn yn byw, pa ryw neu liw croen, beth bynnag ein hiaith, beth bynnag a feddyliwn neu a gredwn.
- 3 Mae gennym oll yr hawl i fywyd ac i fyw mewn rhyddid a diogelwch.
- 4 Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n gwneud yn gaethweision. Ni allwn ni wneud caethwas o unrhyw un arall.
- 5 Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n brifo na'n poenydio.
- 6 Mae gennym oll yr un hawl i ddefnyddio'r gyfraith.
- 7 Yr un yw'r gyfraith i bawb. Mae'n rhaid iddi ein trin i gyd yn deg.
- 8 Gall pawb ofyn i'r gyfraith ein cynorthwyo pan na fyddwn yn derbyn triniaeth deg.
- 9 Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n carcharu heb reswm digonol, i'n cadw yn y carchar nac i'n halltudio o'n gwlad.
- 10 Os cawn ein gosod ar brawf, rhaid i hynny fod yn gyhoeddus. Ni ddylai'r rhai sy'n ein barnu ganiatáu i unrhyw un arall ddweud wrthy'n nhw'r hyn y dylen nhw ei wneud.
- 11 Ni ddylid beio unrhyw un am wneud rhywbeth hyd nes y ceir tystiolaeth o euogrwydd. Pan fydd pobl yn dweud ein bod wedi gwneud rhywbeth drwg, mae gennym yr hawl i brofi nad yw hynny'n wir. Ni ddylai unrhyw un ein cosbi am rhywbeth na wnaethom nac am wneud rhywbeth nad oedd yn anghyfreithlon pan wnaethpwyd y peth.
- 12 Ni ddylai unrhyw un geisio ddifwyno ein henw da. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i ddod i mewn i'n cartref, i agor ein llythyron nac i'n haflynyddu ni na'n teuluoedd heb reswm da iawn.
- 13 Mae gennym oll yr hawl i fynd ble y mynnom yn ein gwlad ein hunain ac i deithio dramor yn ôl ein dymuniad.
- 14 Pan fyddwn yn ofni camdriniaeth yn ein gwlad ein hunain, mae gennym oll yr hawl i ffoi i wlad arall er mwyn bod yn ddiogel.
- 15 Mae gennym oll yr hawl i berthyn i wlad.
- 16 Mae gan bob oedolyn yr hawl i briodi a chael teulu pan fyddan nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae gan ddynion a merched yr un hawliau pan fyddan nhw'n briodi a phan fyddan nhw wedi gwahanu.
- 17 Mae gan bawb yr hawl i berchen pethau neu i'w rhannu. Ni ddylai unrhyw un fynd â phethau oddi wrthym ni heb reswm digonol.
- 18 Mae gennym oll yr hawl i gredu'r hyn y dymunwn ei gredu, i berthyn i grefydd neu i'w newid pan ddymunwn wneud hynny.
- 19 Mae gennym oll yr hawl i wneud ein penderfyniadau ein hunain, i feddwl yr hyn a fynnw, i ddweud yr hyn a fynnw ac i rannu ein syniadau â phobl eraill, ym mha le bynnag y byddan nhw'n byw, trwy lyfrau, radio, teledu a thrwy gyfryngau eraill.
- 20 Mae gennym oll yr hawl i gyfarfod â'n ffrindiau ac i gydweithio mewn heddwch i amddiffyn ein hawliau. Ni all unrhyw un ein gorfodi i ymuno â grŵp pan na fyddwn yn dymuno gwneud hynny.
- 21 Mae gennym oll yr hawl i gyfranogi yn llywodraeth ein gwlad. Dylid caniatáu i bob oedolyn ddewis arweinwyr eu hunain o dro i dro; dylai fod ganddo/ganddi bleidlais a honno'n bleidlais gyfrinachol.
- 22 Mae gennym oll yr hawl i gartref, i feddu ar ddigon o arian i fyw ac i gymorth meddygol pan fyddwn yn sâl. Dylem oll fod yn rhydd i fwynhau cerddoriaeth, celfyddyd, crefft a chwaraeon ac i wneud defnydd o'n sgiliau.
- 23 Mae gan bob oedolyn yr hawl i swydd, i gyflog teg am ei waith ac i ymuno ag undeb llafur.
- 24 Mae gennym oll yr hawl i orffwys o'n gwaith ac i ymlacio.
- 25 Mae gennym oll yr hawl i fywyd da, gyda digon o fwyd, dillad, tai a gofal iechyd. Mamau a phlant, pobl ddi-waith, hen bobl a phobl ag anabledd – mae gan bawb yr hawl i gymorth.
- 26 Mae gennym oll yr hawl i addysg ac i gwblhau addysg gynradd a ddylai fod am ddim. Dylem fod yn gallu dysgu ar gyfer gyrfa neu wneud defnydd llawn o'n sgiliau. Dylem ddysgu am y Cenhedloedd Unedig a sut i gyd-dynnu gyda phobl eraill ac i barchu eu hawliau. Mae gan ein rhieni'r hawl i ddewis sut a beth y byddwn yn ei ddysgu.
- 27 Mae gennym oll yr hawl i'n ffordd o fyw ein hunain ac i fwynhau'r pethau da a ddaw yn sgil gwyddoniaeth a dysg.
- 28 Mae gennym hawl i heddwch a threfn er mwyn i ni oll fwynhau hawliau a rhyddid yn ein gwlad ein hunain a thros y byd i gyd.
- 29 Mae gennym ddyletswydd tuag at bobl eraill, a dylem amddiffyn eu hawliau a'u rhyddid.
- 30 Ni all neb ddwyn yr hawliau a'r rhyddid hyn oddi wrthym.

Mae hyn yn fersiwn syml o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol gan Amnest Rhyngwladol. Am fersiwn llawn y Datganiad, gw. www.un.org/en/documents/index.shtml